
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llanfairfechan

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith


- Pellter: 7m (4.3 milltir)
- Hyd: 4 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20251211/1050





Gadewch y maes parcio a dilynwch y llwybr troed cyhoeddus gerllaw mynedfa'r maes parcio. Croeswch y nant a chadwch i'r dde gan ddilyn y cyfeirbyst carreg ar y hyd trac serth i mewn i gae.





Dilynwch ffin dde'r cae nes i chi gyrraedd giât fferm a giât mochyn ochr wrth ochr. Ewch drwy'r giât mochyn a cherddwch ar draws y ffridd nes i chi ymuno â thrac.




Parhewch ar hyd y trac nes i chi gyrraedd giât arall sy'n sefyll ochr wrth ochr â giât mochyn. Ewch drwy'r giât mochyn a pharhewch yn eich blaen.





Wrth i chi wneud eich ffordd ar draws y ffridd, dylech weld corlannau defaid carreg ar eich ochr dde yn ogystal â dod i gwfr ag ambell i gyfeirbost carreg ar hyd y ffordd. Dal i'r dde ac i lawr y llethr tuag at y nant.




Croeswch y ffoes a pharhewch syth yn eich blaen ac i fyny tuag at y peilonau yn y pellter. Dylech sylweddoli ar drac caregog wedi i chi gyrraedd y peilonau.




Ymunwch gyda'r trac a throwch i'r dde a dilynwch y ffordd i lawr tuag at yr arfordir. Ffordd Rufeinig yw'r trac hwn oedd yn cael ei ddefnyddio i deithio rhwng Dyffryn Conwy a Chaernarfon.




Ar ôl oddeutu 1.5km, byddwch yn cyrraedd croesffordd. Trowch i'r dde ar gyrraedd y groesffordd tuag at Lanfairfechan a dilynwch arwyddion am Lwybr Gogledd Cymru.




Parhewch i gadw i'r chwith, gan ddilyn yr arwyddion ar gyfer Llwybr Gogledd Cymru wrth i chi gerdded o amgylch gwaelod Garreg Fawr, gan gadw'r wal gerrig ar eich chwith.




Wrth i'r wal gerrig newid cyfeiriad a gwyro am ei lawr, bydd angen i chi gadw i'r llwybr uchaf ar y dde a mynd ymlaen o amgylch gwaelod Garreg Fawr.




Byddwch yn cyrraedd wal a chyffordd o lwybrau lle bydd y llwybrau yn rhannu. Parhewch ar y llwybr mwyaf amlwg drwy'r eithin. Ar ôl oddeutu 200 metr, byddwch yn agosáu at gylch cutiau hynafol ac yn ymuno a llwybr arall.





Trowch i'r dde yma ger yr arwyddbost garreg a dilynwch y llwybr tuag at y wal gerrig.




Ewch drwy'r giât mochyn a cherdded i lawr ar hyd y llwybr.




Ewch heibio'r fainc, trowch i'r dde a cherddwch yn ofalus i lawr yr allt. Byddwch yn mynd drwy gaeau, gwiriwch eich bod yn gadael giatiau yn y modd y daethpwyd ar eu traws. Wrth ymuno gyda'r ffordd, trowch i'r dde a cherdded yn ôl i'r maes parcio.




Ewch drwy'r giât fochyn a throwch i'r dde a cherdded ar hyd y ffordd yn ôl i'r maes parcio.